

## CYNGOR CYMUNED LLANDYSUL COMMUNITY COUNCIL

**Cofnodion Cyfarfod Misol Cyngor Cymuned Llandysul Community Council a gynhaliwyd yng Nghanolfan Ieuenctid Tysul Youth Centre, Llandysul, ar 10 Rhagfyr 2012**

**Minutes of Monthly Meeting of Cyngor Cymuned Llandysul Community Council held at Canolfan Ieuenctid Tysul Youth Centre, Llandysul, on 10 December 2012**

**Yn Bresennol/Present:** Cyng/Cllrs Tom Cowcher Mrs Eileen Curry (Cadeirydd /Chair)  
Douglas Davies Mrs Philippa Davies Keith Evans Wyn Evans Terry Griffiths  
Mrs Carolyn Reed-Rees Breian Teifi and/a Cyng Sir/ County Cllrs Peter Davies and Peter Evans

**Ymweliad/Visit** – Cyn i'r cyfarfod gychwyn, bu Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu, Siân Davies, a benodwyd yn ddiweddar i weithio yn Llandysul a'r cyffiniau, yn siarad gyda'r Cyngor. Codwyd materion amrywiol, gan gynnwys ymddygiad gwrthgymdeithasol, parcio yn Llandysul a chŵn yn y parc, a rhoddir sylw i'r materion hyn. Bydd Pc Dafydd Jones yn ymddeol yn y dyfodol agos/ Prior to the commencement of the meeting PCSO Siân Davies who has recently been appointed to cover Llandysul and surrounding area addressed the meeting. Various issues were raised including, antisocial behaviour, parking at Llandysul and dogs in the park and will be receiving attention. Pc Dafydd Jones will be retiring in the near future.

**Croeso/Welcome** – Estynnodd Cyng Mrs Eileen Curry groeso i bawb i'r cyfarfod. Estynnwyd croeso cynnes i Gyng Wyn Evans, a oedd yn ailymuno gyda ni yn dilyn cyfnod hir o salwch/ Cllr Mrs Eileen Curry welcomed everyone to the meeting. A special welcome was extended to Cllr Wyn Evans who re-joined us after a long period of illness.

- 1 **Ymddiheuriadau/Apologies:** Cafwyd ymddiheuriadau gan/Apologies were received from:-  
Cyng/Cllrs Mrs Rhiannon Ainsworth Beth Davies and Andrew Howell.
- 2 **Datgelu Buddiannau Declarations of Interest:** Clwb Croeso Llandysul – Cyng/Cllr Keith Evans. Llandysul a Phontweli Ymlaen – Cyng/Cllrs Peter Evans, Tom Cowcher and Keith Evans - goddefeb/dispensation. Clwb Criced Llandysul – Cyng/Cllr Keith Evans – goddefeb/dispensation. Gadawodd y Cynghorwyr perthnasol yr ystafell yn ystod y trafodaethau/Relevant Councillors left the meeting during the discussions.
- 3 **Cofnodion/Minutes:** Derbyniwyd bod cofnodion y cyfarfod misol a gynhaliwyd ar 12 Tachwedd 2012 yn gywir ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd/Minutes of monthly meeting held on 12 November 2012 were accepted as correct and signed by the Chair.
- 4 Llanwyd holiadur **Asesiad Strategol Trosedd ac Anrhefn Ceredigion 2013.**
- 4 **Ceredigion Crime & Disorder Strategic Assessment 2013** questionnaire was completed.

5 **Materion yn Codi**:- Cywirodd Cyng S Peter Evans y datganiad a wnaethpwyd ganddo yn ystod y cyfarfod blaenorol dan “Gohebiaeth “Cyfyngiadau Parcio yn Llandysul””, gan nad oedd Katy Spain a Kevin Alldritt (Swyddogion Ceredigion) yn bresennol yn y cyfarfod a gynhaliwyd yn Llandysul, ond roeddent wedi mynychu cyfarfod arall yn Aberaeron. **Ffurflen Ymgeisio am Grant** – Cynhelir adolygiad pellach ohoni yn ystod y cyfarfod nesaf.

6 **Rhoddion**:- (Datgeliadau fel y nodwyd uchod)

- i) **Clwb Criced Llandysul** – Cafwyd cadarnhad, ynghyd ag anfonebau atodol, bod y gwaith wedi cael ei gwblhau a derbyniwyd y dylid talu'r grant o £2,500 a gytunwyd yn flaenorol.
- ii) **Clwb Croeso Llandysul** – (gofynnwyd am £440) – Cafwyd ffurflen wedi'i llenwi ynghylch llogi'r Bws Cymunedol er mwyn casglu'r henoed i fynychu eu cyfarfodydd. Cynigiodd Cyng Carolyn Reed-Rees y dylid rhoi £440, eiliwyd y cynnig hwn gan Gyng Mrs Philippa Davies ac fe'i derbyniwyd.
- iii) **Llandysul a Phontweli Ymlaen – Penwythnos Arddio 2013** – (gofynnwyd am £1,200) Cynigiodd Cyng Mrs Carolyn Reed-Rees y dylid rhoi £1,200, eiliwyd y cynnig hwn gan Gyng Mrs Philippa Davies ac yn unol â gweithdrefnau arferol y cyngor, fe'i derbyniwyd.
- iv) **Neuadd Capel Dewi – Mynediad i'r Anabl i'r Neuadd a Siop Gymunedol, ynghyd â lle parcio Car i'r Anabl** (gofynnwyd am £700). Cynigiodd Cyng Wyn Evans y dylid rhoi £700, eiliwyd y cynnig hwn gan Gyng Mrs Carolyn Reed-Rees ac yn unol â gweithdrefnau arferol y cyngor, fe'i derbyniwyd.
- v) **Telwynau Teifi – Datblygu Telyn Gyngerdd**. (Y Delyn Gyngerdd gyntaf i'w rhoi er mwyn ei defnyddio yn Sir Ceredigion) – (gofynnwyd am £3,000). Os byddai eu cais i Fenter Cymdeithasol Ceredigion yn cael ei dderbyn, cynigiodd Cyng Mrs Carolyn Reed-Rees y dylid cymeradwyo eu cais am grant mewn egwyddor. Eiliwyd y cynnig hwn gan Gyng Mrs Philippa Davies, ac yn unol â gweithdrefnau arferol y cyngor, fe'i derbyniwyd. Anfonir llythyr cefnogi mewn perthynas â'u cais am grant hefyd.

5 **Matters Arising**:- C Cllr Peter Evans corrected his statement made at the last meeting under “Correspondence “Parking Restrictions at Llandysul” in that Katy Spain and Kevin Alldritt (Ceredigion Officers) were not present at the meeting held at Llandysul but had attended another meeting at Aberaeron. **Grant Application Form** – Further review to take place at the next meeting.

6 **Donations**:- (Declarations as noted above)

- i) **Clwb Criced Llandysul** (Cricket Club) – Confirmation was received together with supporting invoices that work has been completed and the previously approved grant in the sum of £2,500 was passed for payment.
- ii) **Clwb Croeso Llandysul** (Welcome Club) – (£440 requested) – Completed form was received in connection with hiring the Community Bus to collect the elderly to attend their meetings. Cllr Mrs Carolyn Reed-Rees proposed £440, this was seconded by Cllr Mrs Philippa Davies and was carried.
- iii) **Llandysul a Phontweli Ymlaen – Gardening Weekend 2013** – (£1,200 requested) Cllr Mrs Carolyn Reed-Rees proposed £1,200, this was seconded by Cllr Mrs Philippa Davies and subject to usual council procedures was carried.
- iv) **Capel Dewi Hall – Disabled Access to Hall and Community Shop together with Disabled Car parking space** (£700 requested). Cllr Wyn Evans proposed £700, this was seconded by Cllr Mrs Carolyn Reed-Rees and subject to usual Council procedures was carried.
- v) **Telwynau Teifi – Development of Concert Harp**. (First Concert Harp to be donated for use in the County of Ceredigion) – (£3,000 requested). Cllr Mrs Carolyn Reed-Rees proposed that subject to the approval of their grant application with Ceredigion Social Enterprise that we support in principle, this was seconded by Cllr Mrs Philippa Davies and subject to usual Council procedures was carried. Letter of support also to be sent in connection with their grant application.

vi) Anfonwyd **ffurflenni ymgeisio am grant** ymlaen at Crossover Gym ac Eisteddfod Llangollen.

vii) Cafwyd **cydnabyddiaeth** derbyn rhodd wrth **Ganolfan Dŵr Llandysul Aqua Centre**.

7 **Rheolau Sefydlog** – Bydd adolygiad yn cael ei gynnwys ar yr Agenda ar gyfer cyfarfod mis Chwefror.

8 **Gwefan** – Cafwyd dyfynbrisiau gan y canlynol:- Patch, Solid Designs a Solutions-Factory. Cynigiodd Cyng Tom Cowcher y dylem symud ymlaen gyda Solutions-Factory, eiliwyd y cynnig gan Gyng Keith Evans ac fe'i derbyniwyd. Penderfynwyd estyn gwahoddiad i Lesley Parker fynychu ein cyfarfod ym mis Chwefror.

9 **Llwybrau Troed/Gwaith Cynnal a Chadw** – Yr unig ddyfynbrisiau a gafwyd oedd y rhai gan Meredith Williams a Deiniol Evans. Cynigiodd Cyng Keith Evans y dylem barhau gyda'r trefniadau sydd gennym ar hyn o bryd, eiliwyd y cynnig hwn gan Gyng Tom Cowcher ac fe'i derbyniwyd. Bydd Meredith Williams yn torri'r porfa ym Mhlasydderwen a gyferbyn â Neuadd Tysul ynghyd a gwaith cynnal a chadw fel bo'r angen. Bydd Deiniol Evans yn torri'r prysgwydd ar hyd y llwybrau troed.

10 **Post y Clerc** – Cafwyd llythyr ymddiswyddo gan y Clerc o ganlyniad i'w hiechyd, ac fe'i dderbyniwyd gan y Cyngor. Diolchodd Cyng Mrs Eileen Curry i'r Clerc am ei gwaith dros y 23 o flynyddoedd diwethaf. Ategwyd geiriau'r cadeirydd gan Gyng Keith Evans ac fe'u cefnogwyd gan yr aelodau. Bydd Cyng Mrs Eileen Curry a'r Clerc yn dod at ei gilydd i drefnu hysbyseb, gan roi adroddiad pellach yn ystod y cyfarfod nesaf. (Gadawodd Cyng S Peter Evans y cyfarfod ar yr adeg hon)

#### 11 **Gohebiaeth**

a) Cafwyd y canlynol gan **Geredigion**:- **Sedd Wag – Ward Tref Llandysul** – Cawsom ein hysbysu nad yw Ceredigion wedi cael cais ysgrifenedig am Etholiad a bydd y Cyngor Cymuned yn llenwi'r lle gwag cyn gynted ag y bo hynny'n ymarferol.

vi) **Grant application forms** have been forwarded to Crossover Gym and Eisteddfod Llangollen.

vii) **Acknowledgement** of receipt of donation was received from **Canolfan Dŵr Llandysul Aqua Centre**.

7 **Standing Orders** – Review to be placed on the Agenda for February.

8 **Website** – Quotations were received from the following:- Patch, Solid Designs and Solutions-Factory. Cllr Tom Cowcher proposed we proceed with Solutions-Factory, this was seconded by Cllr Keith Evans and carried. It was decided to invite Lesley Parker to attend our February meeting.

9 **Footpaths/Maintenance Work** – The only quotations received back were from Meredith Williams and Deiniol Evans. Cllr Keith Evans proposed that we continue as present, this was seconded by Cllr Tom Cowcher and carried. Meredith Williams is to cut the grass at Plasydderwen and opposite Tysul Hall together with maintenance work as needed. Deiniol Evans is to brush cut footpaths.

10 **Clerk's Post** – Letter of resignation was received from the Clerk owing to health circumstances and was accepted by the Council. Cllr Mrs Eileen Curry thanked the Clerk for her work over the 23 years service. Cllr Keith Evans reiterated the chairs words and was supported by members. Cllr Mrs Eileen Curry and Clerk to liaise in connection with advertisement and report further at next meeting.

(C Cllr Peter Evans left the meeting at this stage)

#### 11 **Correspondence**

a) The following were received from **Ceredigion**:- **Casual Vacancy - Llandysul Town Ward** - We were informed that Ceredigion have not received a written request for an Election and the Community Council shall fill the vacancy as soon as practicable.

11 a) **Ceredigion – Sedd Wag .....parhad**

Dosbarthwyd posteri i'r aelodau a bydd y mater yn cael ei gyfleu i sefydliadau lleol hefyd. Cafwyd gwybodaeth ynghylch Hyfforddiant Am Ddim ar gyfer y Gweithlu. Cafwyd hysbysiad ynghylch y ffaith y bydd Ffordd Pren-gwyn ger Llandysul ar gau rhwng 7.01.2013 ac 8.02.2013. Cafwyd Hysbysiad diwygiedig ynghylch y ffaith y byddai'r ffordd ym Mhenwalle (uwchlaw Teras Marmor) ar gau rhwng 7.01.2013 ac 1.02.13. Cyfarfod ynghylch Cyfyngiadau Parcio a gynhaliwyd ar 15 Hydref 2012 – (gweler Materion yn Codi hefyd). Unwaith eto, roedd Ceredigion yn nodi nad oedd Katy Spain na Kevin Alldritt wedi mynychu'r cyfarfod a gynhaliwyd yn Llandysul ac mai Cyng S Peter Evans oedd wedi hysbysu Ceredigion mewn neges e-bost ar 17 Hydref.

b) **ULIC** – Cafwyd negeseuon e-bost ynghylch: Parthau Cadwraeth Morol, Bwletin ynghylch y Bil Datblygu Cynaliadwy, Arolwg Addasu y Newid yn yr Hinsawdd, Comisiwn Ffiniau Cymru – Cylchlythyr, Cadwch Gymru'n Daclus – Adolygiad Blynnyddol, Cyhoeddiad i'r Wasg gan y Pwyllgor Materion Cymreig – Lansio ymchwiliad newydd – Effaith newidiadau i fuddal tai yng Nghymru a sesiwn Dystiolaeth – Comisiwn Silk – Datganoli Ariannol yng Nghymru.

c) **Mancinelli Maurizio** – Bydd yr eitem hon yn aros ar yr Agenda.

d) **SLCC** – Cafwyd hysbysiad ynghylch adnewyddu aelodaeth a gwnaethpwyd penderfyniad unfrydol y dylid ysgrifennu sic am y swm o £100 er mwyn talu amdano.

e) **Banc Nat West** – Penderfynodd y Cyngor ailethol Cyng Wyn Evans i Bwyllgor Cyllid y Cyngor. Aelodau'r Pwyllgor Cyllid fydd Cynghorwyr Douglas Davies, Wyn Evans ac Andrew Howell. Cynigiodd Cyng Wyn Evans y dylid ail-fuddsoddi swm o £20,000 am gyfnod o 13 mis, eiliwyd y cynnig hwn gan Douglas Davies ac fe'i derbyniwyd yn unfrydol.

f) **Hen Gapel Llwynrhydowen** – Cadarnhawyd y bydd cyngerdd yn cael ei gynnal yn y capel ar Noswyl Nadolig ar gyfer ffrindiau.

11 a) **Ceredigion –Casual Vacancy..Continued**

Posters were distributed to members and the matter is also to be brought to the attention of local organisations. Information was received re Free Training for the Workforce. Notice of closure of Prengwyn Road near Llandysul between 7.01.2013 and 8.02.2013 was received. Amended Notice of closure of road at Penwalle (above Marble Terrace) to between 7.01.2013 and 1.02.13 was received. Parking Restrictions Meeting held on 15 October 2012 – (see also Matters Arising) Ceredigion again informed that Katy Spain nor Kevin Alldritt had not attended the meeting held at Llandysul and that it was C Cllr Peter Evans that had informed Ceredigion on the 17<sup>th</sup> October by email.

b) **ULIC** – Emails were received re: Marine Conservation Zones , Sustainable Development Bill Bulletin, Climate Change Adaptation Survey, Boundary Commission Wales – Newsletter, Keep Wales Tidy – Annual Review, Welsh Affairs Committee Press Announcement – New inquiry launched – The impact of changes to housing benefit in Wales and Evidence session – The Silk commission – Financial Devolution in Wales.

c) **Mancinelli Maurizio** – To remain on the Agenda.

d) **SLCC** – Membership renewal notice was received and it was unanimously decided to pass a cheque for payment in the sum of £100.

e) **Nat West Bank** – It was resolved by the Council to re-elect Cllr Wyn Evans to the Council's Finance Committee. Finance Committee members will now be Cllrs Douglas Davies, Wyn Evans and Andrew Howell. It was proposed by Cllr Wyn Evans and seconded by Cllr Douglas Davies to reinvest the sum of £20,000 for a period of 13 months and was unanimously carried.

f) **Hen Gapel Llwynrhydowen** – It was confirmed that a Christmas Eve concert and gathering for friends is proceeding.

- g) Cafwyd **anfonebau** gan y canlynol:-
- i) **Llinos Jones** – Cafwyd anfoneb am £178.85 am y gwasanaeth cyfieithu ym mis Tachwedd a derbyniwyd y dylid ei thalu.
- ii) **Ceredigion** – Cafwyd anfoneb am £150.80 am gasglu gwastraff yn y Parc a derbyniwyd y dylid ei thalu.
- iii) **The Festive Lighting Company** – Cafwyd anfoneb am £161.76 am fylbiau golau a derbyniwyd y dylid ei thalu.
- iv) **Meredith Williams** – Cafwyd anfoneb am 8 Toriad ym **Mhlasydderwen** (£200) a thoriad yn y Gwanwyn a'r Hydref yn y Maes Parcio gyferbyn â Neuadd Tysul (£120). Derbyniwyd y dylid ysgrifennu sic am £320.00 er mwyn talu am y gwaith hwn.
- v) **Gwasanaethau Glanhau Abacus** – Cafwyd anfoneb am £243.25 am y gwaith chwarterol o lanhau'r Llochesau Bws a derbyniwyd y dylid ei thalu.
- vi) **Ieuencid Tysul Youth** – Cafwyd anfoneb am £275 am rhentu'r ystafell am 11 cyfarfod, gan gynnwys cyfarfod mis Rhagfyr 2012, a derbyniwyd y dylid ei thalu.

12 **Ciosgau Coch**:- Mae'r blychau Cymorth Cyntaf wedi cyrraedd erbyn hyn.

13 **Balchder Pentrefi** – Rydym yn parhau i aros am ganiatâd i symud ymlaen gyda hwn.

14 **Pobl Ifanc yn y Gymuned – Meini Prawf**:- Penderfynwyd gofyn i Gyng Andrew Howell a fyddai o gymorth trefnu gweithgor er mwyn symud y mater hwn yn ei flaen.

15 **Datblygiadau Blodau yn Llandysul – Dysglau Plannu** – Rydym yn aros am ganiatâd gan Ceredigion.

16 **Y Wasg** – Anfonir llythyr at y Cambrian News yn gofyn i Chris Bettely rannu ei gofnod ynghylch mynychu cyfarfodydd Cynghorau Cymuned gyda ni, ac er mwyn tynnu ei sylw at y wybodaeth ar y wefan hefyd.

17 **Cŵn yn y Parc a'r Caeau Chwarae**:- Bydd yr eitem hon yn aros ar yr Agenda. Bydd Cyng S Peter Davies yn delio gyda'r cais am gopi o'r is-ddeddf.

18 **Coeden Goffa Christmas Evans**:- Anfonir llythyr at aelodau Capel Penybont er mwyn ymholi am y goeden.

g) **Invoices** were received from the following:-

i) **Llinos Jones** – Invoice was received for the November translating in the sum of £178.85 and passed for payment.

ii) **Ceredigion** – Invoice was received re collection of waste from the Park in the sum of £150.80 and passed for payment.

iii) **The Festive Lighting Company** – Invoice was received in the sum of £161.76 for light bulbs and passed for payment.

iv) **Meredith Williams** – Invoice was received for 8 Cuts at **Plasydderwen** (£200) and Spring and Autumn cut at Car Park opposite Neuadd Tysul Hall (£120). Cheque was passed for payment in the sum of £320.00.

v) **Abacus Cleaning Services** – Invoice for the quarterly cleaning of Bus Shelters was received in the sum of £243.25 and passed for payment.

vi) **Ieuencid Tysul Youth** – Invoice was received in the sum of £275 for rental of room for 11 meetings including December 2012 and passed for payment.

12 **Red Kiosks**:- First Aid boxes have now been delivered.

13 **Balchder Pentrefi** – We continue to wait for permission to proceed.

14 **Young People in The Community – Criteria**:- It was decided to enquire with Cllr Andrew Howell whether it would assist to arrange a working group to progress matters.

15 **Development of Llandysul Flowers – Planters** – We await permission from Ceredigion.

16 **Press** – Letter to be sent to the Cambrian News asking Chris Bettely to share his attendance at Community Council meetings and also bring to his attention the information on the website.

17 **Dogs in the Park and Playing Fields**:- To remain on the Agenda. C Cllr Peter Davies will follow up the request for a copy of the byelaw.

18 **Christmas Evans Memorial Tree**:- Letter to be sent to members of Penybont Chapel to enquire about the tree.

**19 Cynllunio:-**

**Cynllunio:** Ni chafwyd hysbysiad am Gyfarfod y Pwyllgor Rheoli Datblygu.

(Fel Cynghorydd Sir, roedd Cyng Peter Davies yn dymuno cofnodi nad oedd wedi mynegi barn mewn perthynas ag unrhyw rai o'r Ceisiadau Cynllunio, a'i fod wedi gadael y cyfarfod ar yr adeg hon).

Archwiliwyd a chymeradwywyd y cynlluniau canlynol:-  
Gwarcefel Arms – Addasiadau allanol a mewnol.

Cymeradwywyd y cynlluniau canlynol dan awdurdod dirprwyedig:-

Bwthyn Foeldeg, Pren-gwyn – estyniad

**Caniatâd Cynllunio**

Pafiliwn Chwaraeon Tir Dref – Estyniad

Rhydsais, Talgarreg - Tyrbin gwynt E3120 Endurance (mwyafswm uchder o 46.1m), llwybr mynediad a ffos geblau.

Bwthyn Foeldeg, Pren-gwyn – estyniad

**Cymeradwyo Materion Neilltuedig**

Moelgarnog, Rhydowen – Annedd gweithiwr amaethyddol a Siec stoc amaethyddol

**Gwrthod Caniatâd Cynllunio**

Pentir Heol Llyn y Fran – 12 annedd gan gynnwys 4 uned fforddiadwy.

**19 Planning:-**

**Planning:** Notice of the Development Control Committee Meeting was not received.

(Cllr Peter Davies as County Councillor wished to record that he had not expressed an opinion in connection with any of the Planning Applications and left the meeting at this stage).

The following plans were inspected and approved:-  
Gwarcefel Arms – External and internal alterations.

The following plans were approved under delegated authority:-

Foeldeg Cottage, Prengwyn – extension

**Planning Permission**

Tir Dref Sports Pavilion – Extension

Rhydsais, Talgarreg – Endurance E3120 wind turbine (max height 46.1m), access track and cable trench.

Foeldeg Cottage, Prengwyn – extension

**Approval of Reserved Matters**

Moelgarnog, Rhydowen – Agricultural workers dwelling and Agricultural stock shed

**Refusal of Planning Permission**

Pentir Llyn y Fran Road – 12 dwellings to include 4 affordable units.